Heneb

# Archaeoleg a Datblygiad

Mae darganfyddiadau archeolegol annisgwyl a wnaed yn ystod datblygiadau yn brin lle mae datblygwyr yn cynnal asesiad archeolegol priodol yn gynnar. Pan na chynhaliwyd asesiad annigonol cynyddir y risg o oedi raglen ddatblygu, ac mewn rhai amgylchiadau mae'n gallu atal datblygiad gan bod caniatad wedi ei ddiddymu.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24: yr amgylchedd hanesyddol) yn sicrhau bod yr adnodd archeolegol yn cael ei ddiogelu trwy'r broses rheoli datblygiad. Mae'n annhebygol y bydd datblygiadau arfaethedig sy'n effeithio'n andwyol ar weddillion archeolegol cenedlaethol yn cael caniatâd cynllunio. Ar gyfer cynlluniau y tu allan i'r fframwaith cynllunio arferol, mae'n hanfodol bod cyngor yn cael ei rhoi ynglyn ar oblygiadau archeolegol o cynnigion ddatblygu cyn gynted ag y bo modd er mwyn gwarantu cadwraeth unrhyw weddillion sy'n bwysig yn genedlaethol yn eu lle. Gwarchodir y fath weddillion yn gyfreithiol o dan Ddeddf Henebion a Ardaloedd Archeolegol 1979.

Lle mae datblygiad yn effeithio ar faes o botensial archeolegol uchel neu pan nad oes digon o wybodaeth ar gael i benderfynu ar gais cynllunio, mae'n ofynnol i ddatblygwyr ymgymryd ag ymchwiliad archeolegol cyn gwneud penderfyniad. Gall hyn gynnwys ymchwil ddogfennol, arolwg a / neu gloddio. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn sail i benderfyniadau, datrysiadau dylunio a strategaethau lliniaru yn y dyfodol.

Mae strategaethau lliniaru yn cynnwys cadwraeth yn eu lle (osgoi), cadwraeth trwy gofnod (arolwg archeolegol neu gloddio) neu gyfuniad o'r ddau. O fewn y cyd-destun cynllunio, caiff hyn ei gyflawni fel rheol trwy osod amodau ar ganiatâd cynllunio.

Disgwylir i ddatblygwyr gwrdd â chost yr holl waith archeolegol o fewn y cyd-destun datblygu. Efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr benodi contractwr archeolegol i ymgymryd â rhaglen o waith archeolegol cyn a / neu yn ystod y datblygiad. Gall y rhaglen archeolegol gynnwys gweithgareddau yn dilyn cwblhau'r gwaith ar y safle (gwaith ôl-gloddio) megis delio ag unrhyw arteffactau a ddarganfuwyd, astudiaethau arbenigol (e.e.. dyddio radio carbon) a pharatoi adroddiadau.

Mae côd ymddygiad Sefydliad Archeolegwyr yn gofyn am adrodd, cyhoeddi a lledaenu canlyniadau'r holl brosiectau archeolegol, gan weithio i'r egwyddor bod archeoleg yn rhan o dreftadaeth gyffredin cymdeithas a dylai fod ar gael i bawb. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gontractwyr archeolegol yn adneuo

copïau o’u hadroddiadau gyda’r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, yn ogystal â sicrhau bod yr holl archeolegwyr yn cyhoeddi’r gwaith a wneir yn ffurfiol mewn cyd-destun datblygu.